

Lefel
2

CRYNODEB YMATEB YMGYSYLLTU

Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd

Crynodeb Ymgysylltu – Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd

Cyflwyniad

Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru benderfyniad i gyfyngu ar gyfres newydd o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant¹ yng Nghymru. Mae'r gyfres hon yn cynnwys y cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd a fydd ar gael i'w haddysgu o fis Medi 2019. Mae'r cymhwyster Lefel 2 Craidd newydd hwn yn cael ei ddatblygu gan gonsortium cyrff dyfarnu o City & Guilds London Institute a CBAC (y Consortium) a hon fydd yr unig fersiwn o'r cymhwyster a fydd ar gael i ddysgwyr ar raglenni a ariennir gan y wladwriaeth yng Nghymru.

Rhwng 22 Tachwedd a 19 Ionawr, gwnaethom gynnal gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd, a oedd yn cynnwys grwpiau ffocws wyneb yn wyneb ac arolwg ar-lein. Yn y gweithgareddau ymgysylltu hyn, gwnaethom ofyn cwestiynau ynghylch y nodau ac amcanion pwnc arfaethedig, cynnwys pwnc a threfniadau asesu a nodir yn y Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer y cymhwyster newydd Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd.

Crynodeb Ymgysylltu

Gwnaethom gynnal pum grŵp ffocws ledled Cymru yn ystod y cyfnod ymgysylltu, yn Wrecsam, Bangor, Abertawe a Chasnewydd a daeth cyfanswm o 138 o unigolion i'r digwyddiadau hyn. Amlinellodd y grwpiau ffocws ddiben yr ymgysylltu, gan grynhoi'r gweithgarwch prosiect hyd yma a chaniatáu i'r sawl a oedd yn bresennol ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau ar y strwythur, y cynnwys a'r trefniadau asesu a gynigiwyd ar gyfer y cymhwyster yn y ddogfen meini prawf cymeradwyo. Daeth 132 o ymatebion llawn neu rannol i law i'n harolwg ar-lein.

Nodau ac amcanion pwnc

Roedd ein gweithgareddau ymgysylltu yn gofyn am adborth ar ein nodau ac amcanion asesu pwnc arfaethedig. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cytuno â'n cynigion ac yn nodi pa mor bwysig yw gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol gyson fel man cychwyn i "*ddatblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth fydd yn cefnogi ymarfer effeithiol ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol.*"

Pwysleisiodd rhai o'r ymatebwyr fod angen cysylltu'r wybodaeth hon ag ymarfer yn y gweithle – "*teimlir yn gryf y dylid gwneud hyn yn yr amgylchedd gwaith lle y byddant yn meithrin gwir ddealltwriaeth o werthoedd/egwyddorion.*" Mae'r pwynt hwn wedi'i adlewyrchu yn natblygiad y cymhwyster, gyda'r cymhwyster Craidd yn adlewyrchu'n agos Fframwaith Sefydlu newydd Cymru Gyfan², sef y fframwaith y mae pob gweithiwr Iechyd a gofal cymdeithasol yn ymgymryd ag ef pan fydd yn dechrau gweithio yn y sector.

¹ <http://qualificationswales.org/media/2534/230517-determination-to-restrict-hsc-final-w.pdf>

² <https://gofalcymdeithasol.cymru/casgliadau/adnodau-fframwaith-sefydlu-cymru-gyfan-fersiwn-2018>

Cynllun Asesu

Yn ystod ein gweithgareddau ymgysylltu, gwnaethom ofyn cwestiwn am y cynllun asesu.

Roedd tua hanner yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynllun asesu. Roedd lleiafrif ohonynt yn pryderu ynghylch cynnwys asesiad allanol am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys natur yr asesiad allanol, arbenigedd aseswyr a'r gallu i reoli'r asesiad allanol.

"Sut y caiff yr asesiad allanol ei gynnal a beth fydd ffurf yr asesiad hwnnw?"

"Pwy fyddai'n gymwys i gynnal yr asesiad mewnol - efallai na fydd rheolwyr yn gallu ymdopi â'r llwyth gwaith hwn?"

Mewn ymateb i hynny, rydym wedi egluro natur yr asesiad allanol, h.y. prawf â chwestiynau aml-ddewis a gaiff ei osod a'i farcio'n allanol, y gellir ei gwblhau ar-lein ac ar bapur. Bydd hyn yn golygu y bydd modd i'r prawf gael ei ddatblygu a'i farcio gan aseswyr a gyflogir gan y Consortiwm, gan ryddhau'r baich o asesu ar aseswyr mewnol. Bydd yr elfen asesiad allanol ar gael ar alw, gan gefnogi mynediad hyblyg a phriodol i'r asesiad pan fydd dysgwyr yn barod. At hynny, bydd trylwyredd a chysondeb yr asesiad allanol yn gwella cysondeb y wybodaeth a ddysgir gan ymgeiswyr ledled y gweithlu.

Graddio

Yn ystod y broses ymgysylltu, gofynnwyd i'r ymatebwyr am y datganiad o ganlyniad arfaethedig, sef "llwyddo neu fethu". Roedd lleiafrif o'r ymatebwyr yn pryderu ynglŷn â'r cynnig y byddai dysgwyr yn "methu".

"Os bydd rhywun yn methu, a yw hyn yn golygu na all gael rhagor o gymorth?"

Rydym wedi egluro, yn ymarferol, y caiff dysgwyr eu cofrestru ar gyfer y cymhwyster pan fyddant yn barod ac y byddant hefyd yn gallu ei ailsefyll. Bydd cyfleoedd i ailsefyll yn rhoi gwell siawns i'r dysgwr basio. Mewn trafodaethau yn ystod digwyddiadau ymgysylltu, pwysleisiwyd pa mor bwysig yw'r wybodaeth sylfaenol yn y cymhwyster Craidd fel rhagofyniad neu ofyniad craidd ar gyfer ymarfer diogel yn y gweithle.

Teitl y Cymhwyster

Yn ein gweithgareddau ymgysylltu, gwnaethom gynnig mai'r teitl canlynol y dylid ei roi i'r cymhwyster:

Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd (Oedolion); ar gyfer y llwybr oedolion 30 credyd;

Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd (Plant a Phobl Ifanc); ar gyfer y llwybr plant a phobl ifanc 30 credyd;

Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd (Oedolion a Phlant a Phobl Ifanc); ar gyfer y cymhwyster 50 credyd.

Derbyniwyd amrywiaeth o sylwadau cadarnhaol ynghylch y teitlau hyn.

"Ymddengys fod y teitlau hyn yn briodol." "Mae'r teitlau'n ymddangos yn briodol." "Dwi'n hapus gyda'r teitl presennol."

Yn dilyn y gweithgarwch ymgysylltu, penderfynwyd y bydd y meini prawf cymeradwyo yn nodi maint y cymhwyster yn ôl Oriau Dysgu Dan Arweiniad (GLH). Mae'r meini prawf cymeradwyo bellach yn nodi y bydd y llwybr oedolion a'r llwybr plant a phobl ifanc yn gymwysterau â 300 o oriau dysgu dan arweiniad yr un, ac y bydd y ddau lwybr gyda'i gilydd yn gymhwyster â 500 o oriau dysgu dan arweiniad.

Cymorth ac Adnoddau

Drwy ein gweithgareddau ymgysylltu, gwnaethom holi'r ymatebwyr ynghylch pa gymorth ac adnoddau y byddai eu hangen ar ganolfannau ac ymarferwyr yn eu barn nhw. Ymysg yr ymatebion roedd datblygu aseswyr, amrywiaeth o adnoddau dysgu, canllawiau arfer gorau a gwerslyfrau. Rydym wedi rhannu'r wybodaeth hon â'r consortiwm cyrff dyfarnu er mwyn cefnogi'r broses o gynllunio eu rhaglen rheoli newid.

Sylwadau eraill

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn pryderu ynghylch y terfyn amser o chwe mis ar gyfer cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae angen ennill y cymhwyster hwn er mwyn cofrestru a gallai hynny greu rhwystr i gyflogaion rhan amser, er enghraifft. Byddwn yn trosglwyddo'r pryderon hyn i Gofal Cymdeithasol Cymru.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:

Ymholiadau
Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2
Lôn Pencarn
Parc Imperial
Coedcernyw
Casnewydd
NP10 8AR
Ymholiadau@cymwysteraucymru.org